**POLISI YMDDYGIAD AR GYFER DYSGU**

**Adolygwyd a diweddarwyd y polisi hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2025–26. Mae'n ymgorffori adborth ac arferion gorau cyfredol ym maes arferion adferol ac arferion sy'n ymwybodol o drawma. SAT Mehefin 2025*

Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar barch at bob unigolyn sy'n perthyn i'r gymuned sy'n bodoli yma boed yn staff neu'n ddysgwr. Mae hapusrwydd cymuned yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Hunan-barch, parch at eraill, cwrteisi, caredigrwydd, sensitifrwydd, cysondeb a thegwch yw prif werthoedd bywyd yr ysgol. O'r athroniaeth hon y daw ein disgyblaeth. Ceisiwn feithrin yr egwyddor o hunanddisgyblaeth drwy ddeffro'r ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan bob unigolyn dros ei weithredoedd ei hun.
Mae Polisi Ymddygiad cadarnhaol Ysgol Gyfun Gŵyr yn seiliedig ar y gwerthoedd hyn ac yn gosod fframwaith o ddisgyblaeth gadarnhaol glir a theg ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn o fewn neu du allan i'r dosbarth. Mae'r polisi hefyd yn datblygu a gwireddu dibenion craidd Cwricwlwm Newydd i Gymru fel y gall plant a phobl ifanc gael y cyfleoedd i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion Arferion Adferol fel rhan annatod o'r polisi. Ein prif nod yw sicrhau ymagwedd gadarnhaol tuag at fywyd a gwaith yr ysgol er mwyn hyrwyddo a chaniatáu dysgu llwyddiannus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Fel Ysgol Sy'n Parchu Hawliau Plant gweithredir y polisi hwn hefyd yn unol ag egwyddorion Hawliau Plant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sydd yn rhoi'r hawl i blant gael addysg heb gael eu tarfu gan ymddygiad anystyriol disgyblion eraill

Mae'r ysgol yn cydnabod y cysylltiad agos rhwng ymddygiad a lles meddyliol ac emosiynol. Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae'r polisi hwn yn gweithio ochr yn ochr â darpariaeth ADY y sefydliad. Mae ymyriadau ymddygiadol yn cael eu teilwra i anghenion unigol, gan gynnwys disgyblion ag anawsterau ymddygiad neu iechyd meddwl

**YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU**

Mae'r ysgol yn'Ysgol sy'n Parchu Hawliau.' Mae hi'n meddu ar wobr arian UNICEF. Mae'r wobr yn cydnabod ymroddiad ysgolion tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant ac sy'n ei osod yn graidd i gynlluniau, polisïau, ethos a gweithredoedd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymrwymo i addysgu disgyblion am y Confensiwn drwy gyfres o weithgareddau ac ymgyrchoedd.

- Erthygl 12- Hawl pob plentyn i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i gael gwrandawiad
- Erthygl 19- Yr hawl i beidio â chael ei niweidio, cael gofal a chadw'n ddiogel
- Erthygl 28- Yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol
- Erthygl 29- Yr hawl i fod y gorau y gall fod
- Erthygl 30- Yr hawl defnyddio ei iaith ei hun
- Erthygl 33- Yr hawl i gael ei ddiogelu rhag cyffuriau peryglus
- Erthygl 37- Yr hawl i gael ei drin yn deg

**Disgwyliadau**

Mae disgwyliadau'r ysgol i gyd yn seiliedig ar yr egwyddor o barch, cyd-fyw a chyd-dynnu hwylus. Cyfeirir yn gyson mewn gwasanaethau ysgol, cyfnodau bugeiliol a gwersi, at ein disgwyliadau. Rhoddir neges glir i gymuned yr ysgol bod ymddygiad ymosodol/bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol ac y bydd ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau gyda chanlyniadau difrifol yn unol â'r Côd Disgyblaeth. Seilir ein Côd Disgyblaeth ar egwyddorion Arferion Adferol gyda'r nod o adfer ymddygiad gwael i fod yn ymddygiad parchus ac adfer y berthynas rhwng disgyblion er mwyn symud ymlaen gyda bywyd ysgol ble bynnag mae hyn yn bosib. Defnyddir y broses Cylch Trafod Adfer fel rhan annatod o'r broses ddisgyblu.

Rydym yn ceisio creu awyrgylch dysgu cadarnhaol drwy:

- Hyrwyddo ymddygiad da
- Hyrwyddo hunanddisgyblaeth a hunan-barch
- Hyrwyddo perthnasau cadarnhaol
- Hyrwyddo cysondeb wrth ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol

Pan nad yw safonau ymddygiad yn dderbyniol, mae'r ysgol yn ceisio bod yn gadarn, yn deg, yn glir ac yn gyson:-

- yn **gadarn -** yn yr achosion a ddilynir; cymerir camau; mae'r disgybl yn cael gwybod bod ei ymddygiad yn annerbyniol ac ymdrinnir â digwyddiadau difrifol yn unol â hynny, sy'n cynnwys defnyddio'r gweithdrefnau cywir.
- yn **deg -** bod natur y gosb yn gweddu i'r drosedd, ond yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau unigol.
- yn **amlwg -** mae dysgwyr a rhieni yn deall y disgwyliadau.
- Yn **gyson -** mae canllawiau clir yn cael eu rhoi i staff i hyrwyddo tegwch wrth ymdrin ag achosion o gamymddwyn a bod yr ystod o gosbau yn cael eu defnyddio'n gyson.

I fod yn effeithiol, rhaid i'r holl staff gefnogi a gweithredu’r polisi ymddygiad yn drylwyr ac yn gyson. Os nad yw hyn yn digwydd, yna bydd y dysgwyr yn drysu a'r polisi'n gwanhau. Rhaid i'n polisi ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth gael ei atgyfnerthu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi gan yr holl staff bob amser.

I fod yn effeithiol, rhaid i'r holl staff orfodi'r polisi ymddygiad yn drylwyr ac yn gyson. Os nad yw hyn yn wir, yna bydd y dysgwyr yn drysu a'r polisi'n gwanhau. Rhaid i'n polisi ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth gael ei atgyfnerthu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi gan yr holl staff bob amser.

<u>Beth sy’n bwysig i ni yn Ysgol Gyfun Gŵyr?</u>

**<u>PARCH</u>**

**CYMRAEG -** Cymraeg yw iaith yr ysgol a phob gweithgaredd yn yr ysgol

**YMDDYGIAD -** Parchu hawl **pob plentyn** yn ôl y Cenhedloedd Unedig i gael addysg dda ac i fod yn hapus a diogel yn yr ysgol

Dilyn rheolau’r ysgol ar gyfer ymddygiad mewn gwersi a thu hwnt i wersi.Gwrando ar staff yr ysgol.




**YMDRECH -** Rhaid rhoi 100% - eich gorau – i gyflawni gwaith dosbarth, gwaith cartref, a gweithgareddau eraill


**CYFRIFOLDEB -** Mae angen i bob disgybl i dderbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hunan. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod ei ymddygiad yn hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol a diogel.

**EMPATHI -** Mae empathi, sef y gallu i ddeall teimladau eraill, yn allweddol i sefydlu ffydd a pharch ac i ddangos parch i deimladau, anghenion a hawliau pobl eraill.

**PRESENOLDEB/PRYDLONDEB -** Presenoldeb 100% a phrydlondeb i bob gwers

**GWISG -** Crys a thei / crys polo yr ysgol, crys chwys du yr ysgol, trowsus du / sgert ddu, esgidiau du ar bob achlysur

**<u>RHEOLAU’R YSTAFELL DDOSBARTH</u>**




- <u>CYMRAEG YW IAITH YR YSGOL A PHOB GWEITHGAREDD YNDDI</u>
- Rhaid cyrraedd y wers yn brydlon.
- Arhoswch yn dawel mewn llinell y tu allan i’r ystafell ac ewch i mewn i’r ystafell yn dawel.
- Gosodwch yr offer ar y bwrdd; bag ar y llawr a chot ar y gadair. Ni ddylai’r ffon symudol fod allan o’r bag yn ystod y wers.
- Mae hawl gan bob disgybl i gael addysg dda- felly rhaid osgoi tarfu ar wersi mewn unrhyw ffordd. Felly
    - ✓ Pan fydd yr athro yn hawlio sylw, rhaid ymdawelu yn syth.


- ✓ Codwch eich llaw cyn gofyn am ateb cwestiwn.
- ✓ Gwrandewch ar yr athro/athrawes ac ar gyfraniad disgyblion eraill


- Gwnewch eich gorau ym mhob tasg.
- Cofnodwch waith cartref, a'i gyflwyno yn brydlon
- Ar ddiwedd y wers, rhaid gadael yn dawel pan fydd yr athro/athrawes yn eich rhyddhau.**<u>Offer ac adnoddau angenrheidiol-</u>** Dylech ofalu fod yr offer cywir gennych ym mhob gwers. Bydd angen adnoddau cyffredinol i bob gwers ond offer mwy penodol i wersi eraill. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod popeth sydd angen gyda




Er mwyn atgyfnerthu'r neges a'r disgwyliadau allweddol, mae'r ysgol wedi gosod posteri gweledol clir ar hyd a lled yr adeilad yn seiliedig ar y tair elfen: **Dy Gymreictod, Dy Gymuned, a Dy Gynnydd**. Mae'r posteri hyn yn crynhoi disgwyliadau craidd yr ysgol mewn modd syml a deniadol, gan atgoffa dysgwyr o'u cyfrifoldebau i'w hiaith, eu cymuned ac i ddysgu. Maent yn cefnogi'r polisi hwn drwy greu neges gyson ar draws y gymuned ysgol gyfan, gan feithrin hunanreolaeth a pharch ymhlith pawb.















<u>**Y Cod Disgyblaeth**</u>



*Gweler y ddogfen ‘Y Cod Disgyblaeth’ am fwy o fanylder ar y camau gwahanol.

> Mae Classcharts yn adlewyrchu’r cod ddisgyblaeth ac felly os ydych chi’n cofnodi ar y system **mae angen rhoi ataliaeth egwyl. (Dylid rhoi hwn ar y system.)**
> Bydd hwn yn digwydd wedi rybuddio’r disgybl sef Cam 1.
> Cam 2 fydd eich cofnod + ataliaeth/cosb.
> Cam 3 yw’r PA, Cam 4 yw’r Pbl, Cam 5 y TARh.
> **‍**Mae’r TARh yn monitro Classcharts yn ddyddiol i bob cam**

**<u>Defnydd o’r system Class charts i fonitro Ymddygiad gadarnhaol a negyddol</u>**

Mae’r Ysgol yn defnyddio Class Charts i fonitro ymddygiad y dysgwyr yn effeithiol ac mae’n adlewyrchu; cod ddisgyblaeth. Mae'r system yn caniatáu i athrawon gofnodi pwyntiau positif a negyddol yn uniongyrchol ar gyfer pob disgybl yn ystod y dydd. Trwy'r dull hwn, gallwn gadw golwg ar batrymau ymddygiad a nodi meysydd lle mae angen cefnogaeth neu ganmoliaeth ychwanegol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ddyddiol gyda rhieni trwy'r ap Class Charts, gan sicrhau tryloywder a chysondeb yn ein dulliau rheoli ymddygiad. Yn ogystal, mae'r data a gesglir yn ein galluogi i ddatblygu strategaethau ymyrraeth wedi'u targedu i gynnal amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol ar gyfer pawb.

**<u>Protocol yn dilyn digwyddiad difrifol ar safle’r ysgol</u>**
**Gweithredir prosesau Arfer Adferol yn sail i’r camau canlynol:**

- **Ymchwiliad** gan y Swyddog Ymddygiad/ TARh– **casglu tystiolaeth** gan y disgyblion eu hunain a disgyblion neu staff oedd yn dystion i’r digwyddiad- defnyddio taflenni adferol yr ysgol i gasglu tystiolaeth. **Cysylltu gyda rhieni/gofalwyr** i roi gwybod am y digwyddiad ac i nodi ein bod yn ymchwilio ymhellach.
- Os oes digwyddiad o ymladd neu ymosod corfforol rhaid gwahanu’r disgyblion i ddwy ganolfan ar wahân yn syth.
- Os mae disgybl wedi cael anaf yn y digwyddiad rhaid ymateb o ran protocol cymorth cyntaf yr ysgol a chwilio yn benodol am effaith anaf i’r pen, cysylltu ag ambiwlans os oes angen, cysylltu gyda rhieni’r targed yn syth i roi gwybod, a chadw mewn cysylltiad gyda’r teulu i weld am gynnydd ac iechyd y disgybl- Aelod o’r TARh sy’n cysgodi’r Pbl.
- Tra bod yr ymchwiliad yn parhau cadw’r tramgwyddwr mewn canolfan (e.e. Y Trobwynt/Swyddfa’r Swyddog Cefnogi Ymddygiadol) tan fod penderfyniad wedi ei wneud ar sail tystiolaeth yr ymchwiliad am gosb. Osgoi bod y tramgwyddwr yn crwydro safle’r ysgol heb oruchwyliaeth. Os yw natur y sefyllfa yn ddifrifol iawn gofyn i’r rhieni ddod i gasglu’r dysgwr i roi cyfle i’r ysgol ymchwilio’n llawn.
- Gweithredir **amser cylch ARFERION ADFEROL** yn dilyn dychweliad y disgybl o’r gwaharddiad mewnol/allanol dros dro yn unol â phroses arferion adferol yr ysgol.
- Yn dilyn pob digwyddiad o ymosod corfforol neu ymladd difrifol bydd angen cyfeirio’r disgybl i’r Gwasanaeth Ymddygiad Sirol am gymorth ac arweiniad pellach a/neu’r Seicolegydd Addysg.

- Gweithredir **Ataliad awr ginio ac egwyl neu fe'i gosodir yn yr Uned Wella Fewnol** tra bod disgybl yn derbyn cymorth gan y **Gwasanaeth Ymddygiad** er mwyn diogelu disgyblion eraill os dyfernir ar sail y dystiolaeth bod hyn yn addas.

## Strategaethau ysgol gyfan i fonitro a chynorthwyo i wella ymddygiad

Mae trafod gyda dysgwyr gan ddefnyddio egwyddorion a phroses Arferion Adferol, wrth wraidd holl strategaethau'r ysgol. Y bwriad pob amser yw cael dysgwyr i feddwl am eu hymddygiad ac effaith eu hymddygiad ar eraill. Y nod hefyd yw trafod sut i wella eu hymddygiad a gwneud yn iawn am ddigwyddiadau rhyngddynt ac aelodau eraill cymuned yr ysgol er mwyn adfer perthynas a symud ymlaen yn adeiladol. Maent yn cynnwys yr ymagweddau systematig er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol sy'n seiliedig ar berthnasoedd, ymgysylltu, cymhelliad a lles emosiynol.

- Adroddiad monitro ymddygiad/ymdrech/gwaith dyddiol
- Monitro Ymddygiad i ddisgybl unigol dros gyfnod penodol
- Ataliad egwyl/awr ginio
- Casglu sbwriel egwyl/cinio -fel cosb gymunedol mewn achlysuron penodol -difrod/graffiti/camymddwyn tai bach/dringo ar y to.
- Cyfnod ynysu o wersi –yn yr Uned Fewnol
- Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad
- Helpu'r dysgwyr i weld bod ganddynt yr allu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt hwy eu hunain.
- Cynnwys arferion/technegau i staff a dysgwyr
- Datblygu a chefnogi dysgwyr i gymryd perchnogaeth ar eu hamgylchedd, eu hymddygiad a'u dysgu.
- Sicrhau bod disgyblion yn cydweithio'n dda
- Datblygu'r cyfleoedd a darparu amser i'r sesiynau Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol.

## Cyfeirio Allanol

Mae'r ysgol yn cyfeirio dysgwyr yn ôl yr angen at y gwasanaethau Sirol canlynol er mwyn cynorthwyo a chefnogi dysgwyr :

- Sesiynau gyda'r **Swyddog Gefnogaeth Ymddygiad**
- Sesiynau **Ymddygiad cadarnhaol**
- **Gwasanaeth Cwnsela'r Sir** (gall y disgyblion hunangyfeirio hefyd i'r gwasanaeth hwn) am gymorth gydag ymdrin â phroblemau iselder a hunanddelwedd isel.
- **Gwasanaeth Ymddygiadol y Sir** sy'n cynnig sesiynau ar e.e. strategaethau rheoli tymer- trwy'r Cyd-gysylltydd ADY

- Asesiad **Seicolegydd Addysg y Sir** - a fydd yn gallu cyfeirio disgybl i wasanaethau Sirol pellach -trwy'r Cyd-gysylltydd ADY
- **Panel Mynediad Sirol** ar gyfer **Uned Gyfeirio'r Sir** mewn achosion dwys o gamymddwyn na fu modd ei wella- rhaid darparu tystiolaeth fanwl o strategaethau ymyrraeth a ddefnyddiwyd dros gyfnod sylweddol o amser i gynorthwyo disgybl i adfer ei ymddygiad a Chynllun Addysg Unigol Ymddygiad.

**<u>Protocol Ymdrin â Cham-drin Ffônau Symudol mewn Gwersi</u>**

- Rhaid i ffonau symudol fod wedi troi bant ac yn y bagiau ymhob gwers. Dylid dilyn y polisi ffonau Symudol ar bob achlysur.
- *Gweler y Polisi Ffonau Symudol




**<u>Arferion Adferol</u>**

Mae cymuned lwyddiannus yn un sy'n adnabod, ac yn ymddiried, yn ei gilydd, ac sy'n cydweithio mewn ffordd deg i ddatrys gwrthdaro, ac i wneud pobl i deimlo'n well.

**Sut ydym yn gwneud hynny yng Ngŵyr?**
Drwy weithredu egwyddorion "Arferion Adferol".

**Beth ydyn nhw?**

- **Cwestiynau Adferol** - gofynnir chwe chwestiwn adferol i ddisgybl yn dilyn profiad o wrthdaro:
    1. Beth ddigwyddodd?
    2. Beth oedd ar dy feddwl ar y pryd?
    3. Beth wyt ti wedi bod yn meddwl amdano ers hynny?
    4. Ar bwy y mae'r hyn a wnest di wedi cael effaith?
    5. Ym mha ffordd yr effeithiwyd arnynt?
    6. Beth ddylai ddigwydd nesaf yn dy farn di?
- **Cylchoedd Adferol** - trefnir cyfarfod yn dilyn gwrthdaro sylweddol, wedi'i gadeirio fel arfer gan athro/athrawes, gyda'r bwriad o ddatrys gwrthdaro ac adfer y niwed sydd wedi ei achosi. Sylfaen y cyfarfod fydd y chwe chwestiwn adferol, ond rhai sydd wedi'u targedu at y sawl sydd wedi dioddef, yn ogystal â'r achosydd.
- **Iaith Affeithiol** - defnyddia oedolion ar draws yr ysgol iaith sy'n cyfathrebu i'r dysgwr effaith ei ymddygiad ar eraill, ac felly sy'n hyrwyddo perthynas dda (e.e."Rwy'n teimlo'n rhwystredig, Gareth, am nad wyt yn gwrando arnaf").
- Yn dilyn pob digwyddiad difrifol, yn dilyn y broses ymchwilio a disgyblu, fe fydd proses adferol yn cael ei gweithredu er mwyn caniatáu i ddysgwyr adfer eu hunain a chreu cytundeb a chydweithio adeiladol gyda'r disgybl arall neu'r disgyblion eraill neu'r aelod o staff

**Dengys ymchwil mai effaith Arfer Adferol yw:**

- Dysgwyr sydd yn teimlo’n gadarnhaol am yr ysgol
- Ymdeimlad o ddiogelwch yng nghymuned yr ysgol
- Lleihad yn y lefelau bwlio
- Lleihad mewn absenoldeb dysgwyr oherwydd bwlio/ Cynnydd mewn presenoldeb
- Dysgwyr ac athrawon yn datblygu sgiliau datrys gwrthdaro
- Cyrhaeddiad gwell
- Lleihad yn nifer y gwaharddiadau/ Osgoi defnyddio camau mwy eithafol o ddisgyblaeth
- Lleihad mewn cyfeiriadau disgyblaeth /Lleihad mewn cyfeiriadau allanol
- Gwell perthnasau

**<u>Ymddygiad Digidol:</u>**

Mae disgwyl i bob dysgwr ddilyn y safonau uchaf o ymddygiad wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol, boed hynny yn ystod gwersi ar-lein, wrth ddefnyddio offer technolegol yr ysgol, neu ar blatfformau cymdeithasol sy’n gysylltiedig ag aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Mae’r polisi hwn yn ymestyn i gynnwys camddefnydd technolegol ac aflonyddu ar-lein.

**<u>Hyfforddiant Staff:</u>**

Mae staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar arferion adferol, tawelu ymddygiad negyddol, a dulliau sy’n ymwybodol o drawma. Mae’r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu gweithredu’r polisi’n gyson ac yn sensitif i anghenion unigol


**<u>Classcharts:</u>**

Bydd data Class Charts, gwybodaeth gwaharddiadau a chyfraddau presenoldeb yn cael eu hadolygu’n wythnosol gan y Tîm Arwain/SAT a’r Tîm Bugeiliol/Mrs Sue Clements /Mrs Rhiannon Smith i fonitro effaith y polisi hwn a darganfod tueddiadau sy’n galw am ymateb neu addasiad pellach.

**<u>Llais y dysgwr:</u>**

Yn unol â’r Confensiwn ar Hawliau’r Plentyn (Erthygl 12), caiff adborth gan ddisgyblion ei gasglu’n flynyddol trwy holiaduron neu fforwm y Cyngor Ysgol. Bydd y wybodaeth hon yn llywio unrhyw newidiadau pellach i’r polisi

## <u>Sesiynau Ymddygiad cadarnhaol AW</u>




Yn ychwanegol i hyn mae'r sesiynau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cynnwys yr ymagweddau systematig er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol sy'n seiliedig ar berthnasoedd, ymgysylltu, cymhelliad a lles emosiynol. Mae'n rhoi ffocws ar ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad. Mae'n ffordd i sicrhau gall dysgwyr weld bod ganddynt yr allu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt hwy eu hunain; yn cynnwys arferion/technegau i staff a dysgwyr; yn datblygu a chefnogi disgyblion i gymryd perchnogaeth ar eu hamgylchedd, eu hymddygiad a'u dysgu a sicrhau bod disgyblion yn cydweithio'n dda. Rhaglen o weithgareddau ydynt sydd yn canolbwyntio ar wella ymddygiad gan roi cyfle i'r dysgwr fyfyrio ar ymddygiad gan ffocysu ar sut mae ymddygiad drwg yn cael effaith negyddol arnynt. Cynigir strategaethau ymarferol ar sut i gywiro'r ymddygiad negyddol yma. Cymera le yn ystod gwersi er mwy rhoi cefnogaeth i'r dysgwyr ymdrechu i ddatblygu i fod yn ddysgwyr mwy effeithiol.

## <u>Gwerth-Fwlio</u>

**Yn yr ysgol hon ystyrir 'bwlio' yn ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol.  Mae hyn yn adlewyrchu diffiniad Llywodraeth Cymru o 'Fwlio'.**

Yn y gymuned ofalgar rydym yn meithrin yma yn yr ysgol nid oes lle i'r fath ymddygiad gan ei fod yn dangos diffyg parch difrifol at unigolyn.

Fel ysgol mewn digwyddiadau o 'Fwlio' fe fyddwn yn gweithredu yn onest ac yn gywir bob amser a bod yn barod i egluro ein gweithredoedd a'n penderfyniadau wrth staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr.

Mae'r polisi Ysgol Gyfan yn diogelu a hybu llesiant ein dysgwyr yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Wrth gyfeirio at y rolau sydd gan unigolion mewn digwyddiadau bwlio, mi fyddwn yn osgoi labelu plant a phobl ifanc fel 'dioddefydd' neu 'fwli' i osgoi bod yn negyddol. Defnyddir y termau 'targed' a 'thramgwyddwr'.

Caiff bwlio ei fynegi trwy gyfrwng amrywiaeth o ymddygiadau niweidiol; gall ddigwydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gall gael ei achosi gan unigolyn neu gan grŵp, ond bydd fel arfer yn digwydd o flaen cynulleidfa i bwysleisio grym neu boblogrwydd.

**Sut caiff bwlio ei fynegi?**

Mae sawl math o fwlio, gan gynnwys:

**Corfforol** – cicio, / gwthio rhywun, anafu rhywun, difrod ei eiddo neu wneud ystumiau i godi braw ar rywun

**Geiriol** - gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu roi ofn

**Emosiynol** – ymddygiad sydd wedi'i fwriadu i ynysu neu niweidio rhywun neu godi cywilydd arno

**Anuniongyrchol** – gweithredoedd slei sy'n digwydd y tu ôl i gefn y targed

**Ar-lein** - defnyddio unrhyw fath o ddulliau digidol a/neu dechnolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio trwy gyfrwng negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo

**Niweidio perthnasoedd** – bwlio sy'n ceisio gwneud niwed i berthnasoedd neu statws cymdeithasol y targed: annog ei ffrindiau i droi cefn arno, elwa ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu salwch tymor hir unigolyn, targedu statws cymdeithasol ei deulu, ynysu neu godi cywilydd ar rywun yn fwriadol neu achosi helynt yn fwriadol i rywun


**Rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau neu ensyniadau.

**Cysylltiedig â rhagfarn** - bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â stereoteipiau neu ragdybiaethau ynghylch hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig.

Ceir mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â'r 9 nodwedd warchodedig ac yn gyffredinol, gellir eu categoreiddio fel hyn:

- bwlio sy'n gysylltiedig ag oedran
- bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr sydd ag anableddau, a gall hynny gynnwys AAA
- bwlio homoffobig deuffobig a/neu drawsffobig
- bwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a/neu ddiwylliant
- bwlio rhywiaethol a/neu rywiol.

Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.




## RÔL YR YSGOL

- Caiff ymyriadau eu gweithredu yn syth, mewn achosion o fwlio neu mewn achos o unrhyw ymddygiad negyddol unigol arall. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae digwyddiadau unigol nad ydynt yn ymddangos yn fan cychwyn bwlio yn cael eu trin a'u trafod fel ymddygiad anaddas.

- Rhaid felly nid yn unig atal ei ymddygiad ond ceisio hefyd dileu ynddo/i'r angen i ymddwyn felly eto. Rhaid osgoi delio a'r canlyniad yn unig a mynd at wraidd y broblem. Mewn achosion o fwlio ac yn dilyn ymchwiliad manwl, gweithredir y camau yn y Côd Disgyblaeth.
- Rhaid peidio â derbyn bod ymddygiad y 'bwli' yn anochel mewn ysgol. Gall patrymau cynnar o ormesu syml dyfu'n ymddygiad anghymdeithasol difrifol a chreu oedolion treisgar.
- Rhoi neges glir i gymuned yr ysgol (trwy wasanaethau blwyddyn ac ysgol gyfan, a thrwy'r Llyfr Cyswllt) bod ymddygiad ymosodol/bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol ac y bydd ymchwiliad manwl i ddigwyddiadau gyda chanlyniadau difrifol yn unol â'r Côd Disgyblaeth).
- GWRANDO ar ddysgwyr. Cymryd gofid pob dysgwr unigol o ddifrif a chymryd cofnodion o'r hyn o ddywedir. Dod â'r mater i sylw'r Tiwtor Dosbarth/Pennaeth

Blwyddyn/TARh cyn gynted ag sy'n bosibl – penderfynu ar y cyd sut i ddelio a'r achos/dysgwr penodol.

- Rhoi amser i'r unigolyn drafod ei d/theimladau mewn awyrgylch gefnogol
- Dilyn i'r eithaf pob cwyn ynglŷn â pherson yn cael ei gam-drin yn y modd hwn gan sicrhau'r dioddefwr iddo/i wneud y peth iawn
- Gwneud yn glir yn gyhoeddus ac yn gyson nad yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol e.e. drwy wasanaethau, unedau penodol o fewn y rhaglen **Dysgu Byw**, trafodaethau boreol, lle cwyd cyfle yn y gwersi. Yn y modd hwn anelwn at greu darlun o'r 'bwli' fel person gwan sydd angen cymorth ei hun. Yn y modd hwn crëir hefyd y math o awyrgylch gefnogol lle y teimla pob disgybl yn ddiogel ac y gall fynegi'r hyn sy'n digwydd iddo/i
- Annog y dysgwyr i weld safbwyntiau a theimladau ei gilydd
- Peidio ag ymateb i'r dysgwr sy'n achosi'r gofid mewn modd ymosodol – dim ond parhau'r cylch treisiol a wna hynny. Rhaid ystyried o ble daw'r angen i greu diflastod i eraill
- Cysylltu â rhieni/gofalwyr dysgwyr sy'n creu anawsterau a diflastod i eraill

**ADNABOD ARWYDDION Y 'TARGED':**
Rhaid bod yn effro i:
⇒ newidiadau ym mhatrwm ymddygiad disgybl
⇒ ymateb disgyblion i'w gilydd yn eu hamser hamdden – egwyl a chinio
⇒ gemeg dosbarth – cofrestru a dysgu
⇒ ddisgyblion yn cael eu halltudio neu'n ymddangos yn unig yn y dosbarth

**ANGHENION Y 'TRAMGWYDDWR' EI HUN:**
Er y crëir delwedd o gryfder a bygythiad gan y tramgwyddwr, y gwirionedd yw mai person gwan ac unig ydyw yn aml, un a chanddo hunanddelwedd isel. Gall fod amryw resymau dros ei ymddygiad:
⇒ anhapusrwydd personol
⇒ unigrwydd
⇒ problemau personol
⇒ ei f/bod yn ddioddefwr hefyd
⇒ teimlon fethiant gyda'i waith neu'n cael gwaith yn anodd
⇒ teimlo'n israddol o fewn dosbarth neu grŵp

***Adolygwyd a diweddarwyd y polisi hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 SAT***